# NEUADD BENTREF

# NEWYDD

# RHYDYMAIN

Gwasg y Dydd, Gyf., Dolgellau.

# NEUADD BENTREF NEWYDD RHYDYMAIN

Ychydig flynyddoedd yn ôl, trwy garedigrwydd y diweddar John Hughes, Y Felin Newydd, rhoddwyd tir yn rhad i adeiladu Neuadd newydd arno. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Hydref, 1959, penderfynwyd symud ymlaen i adeiladu Neuadd newydd.

Cyfarfu'r pwyllgor nifer mawr o weithiau er yr amser hwnnw, a phleser mawr yw dwyn adroddiad i'ch sylw o'r hyn a ddigwyddodd drwy'r misoedd.

## Cyfarwyddo

Cafwyd cynhorthwy y Mri. Tudor Davies, o'r Cyngor Sir, a William Jones, o'r Cyngor Gwlad, pa fodd i symud ymlaen, ac yr ydym yn ddyledus iawn iddynt am eu llafur ac i Mr. Jones am wneud y cyfan o'r trefniadau ynglŷn â'r grant. Hysbyswyd y pwyllgor fod y Weinyddiaeth Addysg ar hyn o bryd yn barod i estyn cymorth hyd at hanner y gost i adeiladu neuaddau pentref, ac mai'r uchafswm oedd £3,330. Byddai'n ofynnol i Bwyllgor Cynllunio Gwlad a Thref gymeradwyo cynllun a defnyddiau'r Neuadd.

## Cyfreithiol

Ymddiriedwyd y gwaith o baratoi gweithred i Mr. J. Marshall Ll. Meredith, Dolgellau. Oherwydd fod yr ardal wedi ei dosbarthu mewn tri plwyf, pasiwyd i fuddsoddi'r neuadd gyda'r "Trustee for Charity Lands."

## Cynllunio

Ymddiriedwyd y gwaith hwn i Mr. M. T. Pritchard, Blaenau Ffestiniog. Derbyniwyd ei gynllun gan y Cyngor Sir, ond nid oedd y Weinyddiaeth Addysg yn barod i'w gymeradwyo heb newid ychydig arno, tra golygai hynny ychwanegiad at y gost. Ni ddaeth gwrthwynebiad i'r bwriad o adeiladu wedi i'r rhybudd ymddangos yn "Y Dydd."

## Defnyddiau

Pasiwyd yn unfrydol i gael tô llechi, a bod y muriau i'w hadeiladu gyda "facing brick" os yn bosibl. Anfonwyd pum sampl o frics i'r Pwyllgor Cynllunio Gwlad a Thref, a chymeradwywyd yr "honeycombe facing brick." Ymwelodd y cadeirydd, Mr. Evan Jones, a'r ysgrifennydd, â Neuadd Llanegryn, a derbyniwyd eu hawgrym, sef plastro y tu mewn i'r holl furiau. Pasiwyd fod y llawr i fod yn goed ("block floor") os yn bosibl, ac i gael trydan i oleuo a chynhesu.

## Paratoi'r Safle

Ymgymerodd y pwyllgor â chlirio'r lle er ceisio arbed costau. Llwyddwyd i wneud hyn yn lled hwylus a rhesymol, drwy i nifer o gyfeillion roddi benthyg peiriannau yn rhad, sef :

| | |
|---|---|
| J. E. Corfield, Abermule | J.C.B. |
| Norman Hughes, Rhuthun | Dumper. |
| Y Comisiwn Coedwigo | Drott. |
| Glyn Evans, Dinas Mawddwy | Lorry. |
| W. Evans, Hafod Las | Lorry. |
| J. F. Humphreys, Aberdyfi | Lorry. |
| George Jones a Percy James | Compressor a Saethu. |

Llogwyd y Drott am un diwrnod yn ychwanegol at gyfraniad y Comisiwn Coedwigo.

Y mae amryw o aelodau'r pwyllgor ac eraill wedi bod wrthi'n ddiwyd iawn gyda'r gwaith clirio, a thrwy hynny wedi arbed o leiaf £400.

**Y Weinyddiaeth a'r Adeiladwyr**

Gwnaed cais am grant ar gyfanswm o £7,143 a chynigiwyd grant o £3,571 gan y Weinyddiaeth Addysg. Derbyniwyd y cynigiad, gan ei fod yn hanner y gost. Anfonodd yr Ysgrifennydd at 16 o adeiladwyr i ofyn a oedd ganddynt ddiddordeb yn y gwaith. Atebodd pedwar nad oedd ganddynt ddiddordeb, a chwech yn barod i anfon prisiau, sef Davies Bros., Abermaw; J. H. Williams & Son, Dolwyddelan; D. R. Pugh & Son, Dolgellau; T. W. Roberts, Llanelltyd; Hughes & Williams, Dolgellau, ac Owen & Rowlands, Newtown. Anfonwyd cynlluniau a "specifications" iddynt fis Rhagfyr, 1960.

Ystyriwyd y prisiau gyda'r Mri. William Jones a M. T. Pritchard yn bresennol, ar y 3ydd a'r 10fed o Chwefror, 1961. Teimlwyd yn y pwyllgor fod cryn wahaniaeth rhwng amcangyfrif costau y Pensaer a phrisiau'r adeiladwyr. Yn wyneb hyn pasiwyd i anfon y prisiau i'r Weinyddiaeth a gofyn a fuasent yn barod i ychwanegu'r grant. Os nad oedd hynny'n bosibl, gofynnwyd am ganiatâd i wneud yr adeilad yn llai. Cafwyd gair o'r Weinyddiaeth ym mis Ebrill yn hysbysu a chadarnhau grant o £4,427, sef hanner cost y pris isaf a'r costau dodrefnu. Pasiwyd i dderbyn cynigiad y Weinyddiaeth ac i dderbyn y pris isaf, sef eiddo Hughes & Williams, Dolgellau (£8,062). Rhoddwyd sicrwydd i'r Weinyddiaeth mai trwy gynnal Cyngherddau, Ffeiriau, Dawnsio Gwerin, Gyrfâu Chwist, Raffles, ynghyd â chyfraniadau, y byddid yn casglu'r gweddill o'r arian i dalu am yr adeilad. Erbyn hyn y mae'r gwaith yn mynd rhagddo, ac os ceir tywydd ffafriol bydd y Neuadd dan dô yn fuan iawn. Teimlwyd ei bod yn werth gwneud ymdrech arbennig er sicrhau Neuadd deilwng i wasanaethu'r ardal am gyfnod hir.

**Cronfa**

Gwnaed casgliad o dŷ i dŷ yn yr ardal ac anfonwyd llythyr apêl at gyfeillion a oedd â chysylltiad agos â'r ardal. Gellir dweud i'r ymateb hyd yma fod yn ffafriol dros ben; er hyn i gyd bydd yn ofynnol sicrhau llawer o arian eto. Chwi welwch oddi wrth yr Adroddiad fod y gost o adeiladu'r Neuadd yn £8,854, a bydd hanner hynny, sef £4,427, yn syrthio arnom fel ardal.

Gwerthfawrogwn yr ewyllys da a ddangoswyd eisoes a'r ymdrech arbennig a wneir i gasglu arian.

Ein nod yw ceisio sicrhau digon o arian i dalu am y Neuadd cyn ei defnyddio, a gwneir apêl garedig atoch i gynorthwyo ymdrechion y Pwyllgor i gyrraedd y nod honno.

Bydd y trysorydd yn falch o dderbyn cyfraniadau, boed fach neu fawr, i hyrwyddo'r gwaith mawr hwn. Yn sicr caiff y cenedlaethau sydd i ddod fudd oddi wrthi.

## CYFRANIADAU LLEOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councell, A. E., Blaenau Hall | 20 | 0 | 0 |
| Cox, D. R., Brynifor | 20 | 0 | 0 |
| Davies, E. Ll., a'r Teulu, Lletywyn | 20 | 0 | 0 |
| Davies, G., a'r Teulu, Station House | 1 | 0 | 0 |
| Davies, Mrs. M., Bodeiddon | 10 | 0 | 0 |
| Drinkwater, Mr. a Mrs. J., Brynaraul | 3 | 0 | 0 |
| **Edwards, Mrs. A.,** Tycerrig, Bl. | 10 | 0 | 0 |
| Edwards, E. T., a'r Teulu, Tycerrig Bl. | 10 | 0 | 0 |
| Edwards, Mrs. E., a'r Teulu, Pantclyd | 15 | 0 | 0 |
| **Edwards, H.,** a'r Teulu, Tymawr | 22 | 0 | 0 |
| Edwards, I., a'r Teulu, Gwyneddfa | 13 | 0 | 0 |
| Edwards, J., a'r Teulu, Cae Coch | 15 | 0 | 0 |
| Edwards, L., Carleg | 5 | 0 | 0 |
| Edwards, N., Brynderw | 3 | 0 | 0 |
| Edwards, R. E., a'r Teulu, Cefnbraich | 7 | 0 | 0 |
| Edwards, S. P., a'r Teulu, Haddef | 1 | 0 | 0 |
| Evans, Misses, Henfaes | 10 | 0 | 0 |
| Evans, E. O., a'r Teulu, Tanybryn | 10 | 0 | 0 |
| Evans, G., a'r Teulu, Sgubor Newydd | 5 | 0 | 0 |
| Evans, H., Hengwrt | 50 | 0 | 0 |
| Evans, I., a'r Teulu, Tremaran | 10 | 0 | 0 |
| **Evans, Mrs. M. J.,** a'r Teulu, Glaneiddon | 25 | 0 | 0 |
| Evans, M. Ll., a'r Teulu, Bronygraig | 10 | 0 | 0 |
| Evans, R. J., a'r Teulu, Tycerrig C.C. | 25 | 0 | 0 |
| Griffiths, Miss A., Esgairgawr | 3 | 0 | 0 |
| Griffiths, Miss C., Esgairwen | 2 | 0 | 0 |
| Griffiths, D., Esgairgawr | 7 | 0 | 0 |
| Griffiths, D., a'r Teulu, Caeaddawyn | 10 | 0 | 0 |
| Griffiths, Miss G., Esgairgawr | 3 | 0 | 0 |
| Griffiths, G., a'r Teulu, Llwynsarn | 10 | 0 | 0 |
| Griffiths, G. a Miss G., Dolfeili | 15 | 0 | 0 |
| Griffiths, J. H., Esgairgawr | 3 | 0 | 0 |
| Griffiths, O. G., a'r Teulu, Forest Lodge | 5 | 5 | 0 |
| Griffiths, Miss M., Esgairgawr | 3 | 0 | 0 |
| Griffiths, R., Bronllywach | 5 | 0 | 0 |
| Griffiths, Mr. a Mrs. R., Esgairgawr | 10 | 0 | 0 |
| Griffiths, R. A., a'r Teulu, Brynawel | 10 | 10 | 0 |
| Griffiths, T. H., a'r Teulu, Ronwydd | 10 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hughes, Mrs. G., Felin Newydd | 10 | 0 | 0 |
| Hughes, Mr. a Mrs. J., Bryncoedifor Cottage | 0 | 10 | 0 |
| Hughes, J. W., a'r Teulu, Gwynfryn | 10 | 0 | 0 |
| Hughes, R. E., a'r Teulu, Broneinion | 5 | 0 | 0 |
| Hughes, T. G., Tynewydd | 20 | 0 | 0 |
| Isaacs, Mr. a Mrs., Prysglwyd | 3 | 3 | 0 |
| **James, L.,** a'r Teulu, Hywel Dda | 50 | 0 | 0 |
| Jones, A. D., a'r Teulu, Alltygwine | 10 | 0 | 0 |
| Jones, Miss B., Hengwrt Hotel | 2 | 2 | 0 |
| Jones, Mrs. C., Bodeiddon | 10 | 0 | 0 |
| Jones, D. M., a'r Teulu, Gelli | 6 | 0 | 0 |
| Jones, E., Traean | 25 | 0 | 0 |
| Jones, G., a'r Teulu, Braichbedw | 10 | 0 | 0 |
| Jones, G. J., a'r Teulu, Gotras | 8 | 0 | 0 |
| Jones, Miss G., Glan'rafon | 2 | 2 | 0 |
| Jones, Mrs. H., Ffrwdygwyllt | 1 | 0 | 0 |
| Jones, H. O., a'r Teulu, Maesycambren | 10 | 0 | 0 |
| Jones, H. R., a'r Teulu, Llys Madian | 50 | 0 | 0 |
| Jones, Parch. J. C., Penybont | 4 | 0 | 0 |
| Jones, J. M., a'r Teulu, Nantycnidiw | 3 | 0 | 0 |
| Jones, L., a'r Teulu, Brogwynedd | 3 | 0 | 0 |
| Jones, Miss M., Cutiau | 2 | 0 | 0 |
| Jones, R. A., a'r Teulu, Dyfnant | 3 | 0 | 0 |
| Law, Mr. a Mrs. R. H., Maesneuadd | 5 | 0 | 0 |
| Lester-Smith, W. O., Bryngwern | 5 | 5 | 0 |
| Lewis, R., a'r Teulu, Tyngerddi | 7 | 0 | 0 |
| Lloyd, A., a'r Teulu, Railway Cottage | 7 | 0 | 0 |
| Lloyd, D., a'r Teulu, Ty Capel Siloh | 4 | 0 | 0 |
| Morris, P. R. a F. R. D., Vicarage | 5 | 0 | 0 |
| Owens, O. W., a'r Teulu, Penarddwnion Fawr | 10 | 0 | 0 |
| Owens, T. H., a'r Teulu, Bychesydd | 5 | 0 | 0 |
| Parry, Mr. a Mrs. D., Tynewydd | 6 | 0 | 0 |
| Parry, R. O., a'r Teulu, Llwynffynnon | 15 | 0 | 0 |
| Powner, Mr. a Mrs. C. D., Bryngolau | 2 | 0 | 0 |
| Pugh, R., a'r Teulu, Bychesydd | 20 | 0 | 0 |
| Richards, Miss E., Benglog | 4 | 0 | 0 |
| Rimmer, J. M., Maesneuadd | 5 | 0 | 0 |
| Roberts, Mr. a Mrs. G., Glanmynach | 3 | 0 | 0 |
| Roberts, G., a'r Teulu, Tyisa | 5 | 0 | 0 |
| Roberts, Misses G. a E. A., Rhaiadrwnion | 1 | 0 | 0 |
| Roberts, J. D., a'r Teulu, Tanymarian | 5 | 0 | 0 |
| Roberts, M. H., a'r Teulu, Rhosyfedwen | 2 | 2 | 0 |
| Roberts, W., a'r Teulu, Werngawr | 25 | 0 | 0 |
| Roberts, W., a'r Teulu, Cefnucha | 10 | 0 | 0 |
| Selleck, F. a Mrs., 3 Meirion Terrace | 7 | 0 | 0 |
| Watkin, Parch. J. G. E., Tegfryn | 10 | 0 | 0 |
| Williams, F., a'r Teulu, Drws-y-mela | 5 | 0 | 0 |
| Williams, Mrs. G., a'r Teulu, Arwel | 4 | 0 | 0 |
| Williams, H., a'r Teulu, Cutiau | 7 | 0 | 0 |
| Williams, Miss J. A., Penrhiw | 10 | 0 | 0 |
| Williams, J., a'r Teulu, Coed | 15 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Williams, J. L., a'r Teulu, Ty Capel Siloh | 2 | 0 | 0 |
| Williams, J. M., Cefnisa | 5 | 0 | 0 |
| Williams, L. E., Maes-y-cambren | 3 | 3 | 0 |
| Williams, M., a'r Teulu, Pant-y-panel | 25 | 0 | 0 |
| Williams, M. L., Penrhiw | 25 | 0 | 0 |
| Williams, S., a'r Teulu, Brithfryniau | 4 | 0 | 0 |
| Williams, T. J., a'r Teulu, Glasfryn | 10 | 0 | 0 |
| Williams, Mr. a Mrs. W., Wenallt | 12 | 0 | 0 |
| Hufenfa Meirion, Gyf. | 50 | 0 | 0 |
| Clwb Amaethwyr Ieuainc | 11 | 0 | 0 |

## CYFRANIADAU O'R TU ALLAN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dolgellau and District Sheep-dog Trials | 5 | 5 | 0 |
| Dolgellau Farmers Ltd. | 5 | 0 | 0 |
| **Edwards, Miss A.,** Tan-y-Fynwent, Dolgellau | 12 | 12 | 0 |
| Edwards, Hugh, Felin, Llanymawddwy | 1 | 10 | 0 |
| Edwards, Mrs. H., Tyddynronnen, Llanuwchllyn | 1 | 0 | 0 |
| Edwards, I. T., a'r Teulu, Drwsnant Uchaf, Llanuwchllyn | 2 | 10 | 0 |
| Edwards, John, Nant-yr-hedydd, Dinas Mawddwy | 1 | 0 | 0 |
| Evans, Ifor, Pen'rallt, Bontuchel, Rhuthun | 1 | 1 | 0 |
| Evans, Mrs. J. Ffowc, Glanaber, Llanuwchllyn | 3 | 0 | 0 |
| Evans, Mrs. W., Dorlan, Dolgellau | 2 | 2 | 0 |
| Griffiths, G., Llysmawddach, Llanelltyd | 1 | 0 | 0 |
| Griffiths, G. E., Islwyn, Garn Dolbenmaen | 1 | 1 | 0 |
| Jones, Mrs. B., 1 Bella Vista, Southsea, Wrecsam | 2 | 2 | 0 |
| Jones, Mrs. C., Graigisa, Llanbedr | 5 | 0 | 0 |
| Jones, D., Gerddi Gleision, Llandderfel | 1 | 0 | 0 |
| Jones, Mr. a Mrs. D. C., Pantgwyn, Llanuwchllyn | 3 | 0 | 0 |
| Jones, Mrs. E., Brynllinos, Llanuwchllyn | 0 | 10 | 0 |
| Jones, Mrs. G., Dolserau Terrace, Brithdir | 5 | 0 | 0 |
| Jones, Ifor, Llys Derwen, Bethesda | 1 | 1 | 0 |
| Jones, John M., Tai'r Cyngor, Bontddu | 1 | 0 | 0 |
| Jones, Miss L., 2 Penucha'rllan, Llanfachreth | 2 | 2 | 0 |
| Jones, Mrs. M., Gelligrin, Rhosygwaliau | 5 | 0 | 0 |
| Jones, Mrs. M. Hughes, Hafod, Llangefni | 1 | 0 | 0 |
| Jones, Owen A., Graigisa, Llanbedr | 5 | 0 | 0 |
| Jones, R., Tynybraich, Dinas Mawddwy | 2 | 2 | 0 |
| Jones, Robert, Pensylfanvia, Llanuwchllyn | 1 | 0 | 0 |
| Jones, Mrs. W., Ty'r Felin, Trefriw | 0 | 10 | 0 |
| Jones, W., Erw Porthor, Towyn | 5 | 0 | 0 |
| Jones, Mrs. W., Wenallt, Llanelltyd | 1 | 1 | 0 |
| Lewis, Mrs. R., Pandy Isaf, Llanbrynmair | 1 | 0 | 0 |
| Lewis, W. J., Rhydygo Isaf, Llanbedr Pont Steffan | 12 | 0 | 0 |
| Lloyd, Mr. a Mrs. H., Afonfa, Llanuwchllyn | 0 | 10 | 6 |
| Lockett, Bert, 127 Coldhams Lane, Caergrawnt | 1 | 0 | 0 |
| Meredith, Mr. a Mrs. Eric, Dolgun, Dolgellau | 5 | 5 | 0 |
| Owen, Mrs. Dr., Caerffynnon, Dolgellau | 3 | 3 | 0 |
| Owen, G. E., Aberfelin, Machynlleth | 3 | 0 | 0 |
| **Owen, Mrs. Jane E., Tynant, Brithdir** | 1 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Owen, Mrs. N., Bodwlan, Llwyngwril | 1 | 0 | 0 |
| Parry, Mrs. W., Braichceunant, Llanuwchllyn | 1 | 1 | 0 |
| Pugh, H. G., Brynllinos, Brithdir | 2 | 2 | 0 |
| Rees, Hugh J., Hen Siop, Llanegryn | 10 | 0 | 0 |
| Rees, Mrs. L., Cefn'rowen Uchaf, Islaw'rdref | 2 | 0 | 0 |
| Roberts, Dafydd, Cefnmaelan, Dolgellau | 5 | 0 | 0 |
| Roberts, H., Rhoslyn, Dolgellau | 1 | 0 | 0 |
| Roberts, Hugh, Bugbrook Downs, Northampton | 5 | 0 | 0 |
| Roberts, Miss M., Bryn, Dolgellau | 1 | 0 | 0 |
| Roberts, Miss M., Bodlondeb, Dinas Mawddwy | 0 | 10 | 0 |
| Roberts, R. T., Ddol Fach, Llanuwchllyn | 1 | 0 | 0 |
| Rowlands, Mrs. Olive, Isfryn, Bala | 0 | 15 | 0 |
| Smith, Mrs. Jane E., Mathafarn Hall, Rhuthun | 2 | 2 | 0 |
| Taylor, Reg., 151 Milner Road, Heswall | 5 | 0 | 0 |
| Thomas, Mr. a Mrs. Dewi, Tyncelyn, Cynwyd | 1 | 0 | 0 |
| Thomas, Mr. a Mrs. Ed., Bryngwenallt, Cynwyd | 1 | 0 | 0 |
| Thomas, Mrs. J., School House, Brithdir | 2 | 2 | 0 |
| Williams, E., 3 Arthog Terrace, Arthog | 2 | 0 | 0 |
| Williams, E. E., Ystumgwern, Dyffryn | 5 | 0 | 0 |
| Williams, E. I., Ty'r Ysgol, Bontddu | 2 | 2 | 0 |
| Williams, Mrs. G. T., Coedmawr, Llanfachreth | 2 | 2 | 0 |
| Williams, John, Taltreuddyn Bach, Dyffryn | 1 | 0 | 0 |
| Williams, Miss M. G., Bryn, Dolgellau | 5 | 0 | 0 |
| Williams, Mr. a Mrs. S. G., Bryn Awelon, Dolgellau | 3 | 3 | 0 |

## CRYNHODEB O'R DERBYNIADAU

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| **Ymdrechion Lleol** | **1097** | **19** | **8** |
| **Cyfraniadau Lleol** | **1021** | **2** | **0** |
| **Cyfraniadau o'r Tu Allan** | **167** | **6** | **6** |
| **Welsh Church Fund** | **400** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **£2686** | **8** | **2** |

Manteisiwn ar y cyfle hwn i ddiolch i nifer mawr a fu'n cynorthwyo gyda'r ymdrech hon. Y mae ein dyled yn fawr iddynt. Edrychwn ymlaen i weld ein hymdrechion yn foddion i gadw'n fyw y Gymdeithas Gymraeg, ac ymfalchïwn ynddi.

Cofiwn mai "Cyd-ddyheu a'i cododd hi."

Yr eiddoch yn gywir,

MARTIN WILLIAMS (Cadeirydd).

IEUAN EVANS (Ysgrifennydd).

J. GLYNMOR JAMES (Trysorydd).